3) Datganiadau Chwarae'n Ddiogel

1. Ar eich ffordd i'r siop rydych chi a'ch ffrindiau yn defnyddio'r groesfan i groesi'r ffordd ac yn aros am yr arwydd i groesi.

2. Rydych chi a'ch ffrind yn cicio pêl yn yr ardd. Mae'r bêl yn cael ei chicio dros y ffens ac allan i'r ffordd fawr. Rydych yn rhedeg allan ar ei hôl!

3. Wedi i ni orffen ein picnic yn y parc, fe benderfynon ni mai'r llwybr cyflymaf adref fyddai drwy'r clawdd ac yna ar hyd trac y rheilffordd yn hytrach na dros y bont. Doeddwn ni heb edrych i weld os oedd trên yn dod.

4. Roedd eich ffrindiau wedi penderfynu chwarae pêl droed ar y cae pêl droed ond roedd y bechgyn hŷn yn chwarae gêm. Penderfynwyd chwarae yn y parc am y tro.

5. Mae grŵp o'ch ffrindiau yn penderfynu mynd am dro i'r goedwig gerllaw eich cartref. Gan fod eich mam yn sgwrsio gyda chymydog rydych chi'n penderfynu mynd gyda'ch ffrindiau heb ofyn am ganiatâd.

6. Es i a fy ffrind Sara ar ein beiciau draw i weld ein ffrind Mali. Doedd hi ddim adref felly gofynnon ni i'n mamau os oedd hi'n iawn i ni fynd ar hyd y llwybr beicio.

7. Un diwrnod fe benderfynais i a fy ffrind Aled fynd am dro i'r parc. Roedd cael llawn gwartheg wrth y parc. Awgrymodd Aled y dylwn fynd i mewn i'r cae er mwyn anwesu'r anifeiliaid.

8. Pan oeddwn ger y traeth, buom yn chwilio am grancod yn y pyllau cerrig. Dywedodd Mam wrthyf am edrych yn y pyllau agosaf atynt ond doedd dim crancod yno. Es yn syth yn ôl at Mam i ddweud wrth.

9. Yn ein parc mae yna bwll dŵr. Pan aeth fy mhêl i mewn i'r pwll, tynnais fy esgidiau a'm sanau er mwyn hôl y bêl.

10. Pan oeddech chi'n chwarae ar y cae y tu ôl i'ch tŷ, gwelodd eich ffrind Huw farcud wedi'i ddal mewn gwifrau trydan. Roedd Huw eisiau dringo i fyny'r peilon i gael gafael arno.